# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 44(v2)

## 1 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Bil yr Undebau Llafur (Cymru)

(60 munud)

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6208** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Brif Weinidog Cymru - yn absenoldeb unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth y DU - i gwrdd â Chadeirydd dros dro Tata Steel i wella telerau'r cytundeb a gynigir gan isadran y cwmni yn y DU i weithwyr dur yng Nghymru; ac y

dylai cynnig diwygiedig o'r fath gynnwys ymrwymiadau cyfrwymol ac ysgrifenedig ar gyflogaeth, buddsoddi a diogelu hawliau pensiwn cronedig.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU, Undebau a phartïon â diddordeb i baratoi strategaeth arall pe byddai'r cynnig presennol yn cael ei wrthod gan y gweithlu dur yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd strategol ac allweddol y diwydiant dur i Gymru a'i heconomi.

2. Yn croesawu'r gefnogaeth sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi er mwyn helpu i sicrhau bod dur yn parhau i gael ei gynhyrchu a bod swyddi dur yn cael eu cadw ar holl safleoedd TATA yng Nghymru.

3. Yn nodi'r trafodaethau diweddar rhwng undebau llafur a TATA ynghylch pensiynau ac yn cydnabod mai penderfyniad i'r gweithwyr fydd unrhyw newidiadau i'r cynllun pensiwn drwy bleidlais ddemocrataidd ac na ddylai fod unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

4. Yn annog TATA i egluro'n glir ac yn fanwl i'r gweithwyr oblygiadau'r cytundeb y maent wedi cytuno arno.

5. Yn nodi'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi arwain trafodaethau ag uwch reolwyr TATA dros y misoedd diwethaf er mwyn sicrhau bod hawliau'r gweithwyr yn cael eu diogelu ac y bydd y trafodaethau hynny'n parhau dros yr wythnosau nesaf.

6. Yn cydnabod y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i ddiogelu gweithwyr, eu swyddi ac i sicrhau diwydiant dur cynaliadwy yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno â gweithwyr ac undebau o weithfeydd dur Tata ym Mhort Talbot na ddylai gwleidyddion fod yn ceisio dylanwadu ar weithwyr ynghylch y cynnig arfaethedig i gadw'r gweithfeydd ar agor.

2. Yn credu ei bod hi'n hanfodol bod gweithwyr yn cael yr amser a'r wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad ar y cynigion ar sail gwybodaeth.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi sylwadau'r Prif Weinidog ar y cynnig i weithwyr Tata Steel a'i effaith ar ddyfodol hirdymor y diwydiant dur yng Nghymru.

2. Yn cydnabod rôl Llywodraeth y DU o ran cefnogi'r diwydiant dur drwy gyflwyno'r rheolau newydd ar gaffael cyhoeddus a thrwy gynyddu cymorth ynghylch costau ynni, gan sicrhau arbedion o £400 miliwn i'r diwydiant erbyn diwedd tymor Senedd bresennol y DU.

3. Yn cydnabod mai dyma'r unig gynnig sydd ar gael i weithlu Tata Steel ar hyn o bryd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fod yn barod i weithio gyda Llywodraeth y DU, Undebau a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddatblygu strategaeth amgen pe digwydd i'r cynnig hwn gael ei wrthod.

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6209** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu:

a) y dylai'r Grid Cenedlaethol ddefnyddio ceblau o dan y ddaear neu o dan y môr neu ddewisiadau amgen eraill i gario trydan drwy Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru lle bo hynny'n ymarferol;

b) y dylai fod rhagdybiaeth o blaid ceblau o dan y ddaear neu ddewisiadau amgen eraill yn hytrach na pheilonau trydan mewn unrhyw ddatblygiadau newydd neu gyfredol yng Nghymru gan y Grid Cenedlaethol; ac

c) y dylid gwneud astudiaeth ddichonoldeb o'r posibilrwydd o gael gwared ar y peilonau presennol a'u disodli gan geblau o dan y ddaear neu ddewisiadau amgen eraill.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Yn is-bwynt (b) dileu 'y dylai fod rhagdybiaeth o blaid' a rhoi yn ei le 'y dylid ffafrio'.

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Yn is-bwynt (c) dileu 'y dylid gwneud astudiaeth ddichonoldeb o'r posibilrwydd o gael gwared ar y peilonau presennol a'u disodli' a rhoi yn ei le 'y dylai Ofgem ymrwymo i gynnal ac estyn y prosiect Darpariaeth Effaith Weledol i Gymru er mwyn cael gwared ar y peilonau presennol a'u disodli'.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(30 munud)

**NDM6205** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryder am y casgliadau sbwriel tair a phedair wythnos a gynigir gan rai awdurdodau lleol ledled Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynghorau yn casglu gwastraff gweddilliol bob pythefnos fan lleiaf, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ac atal tipio anghyfreithlon.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig casglu biniau bob tair wythnos neu bob pedair wythnos.

2. Yn nodi targed Llywodraeth Cymru yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' y bydd pob sector yng Nghymru yn ailgylchu o leiaf 70 y cant o'i wastraff erbyn 2025.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi pobl i gynyddu faint o wastraff y maent yn ei ailgylchu drwy wahardd deunydd pacio Styrofoam.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i alluogi pobl i gynyddu faint o wastraff y maent yn ei ailgylchu drwy gyflwyno cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer plastig, gwydr a chaniau.

'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llwyddiant Cymru wrth ailgylchu 60 y cant o'i gwastraff yn 2015/16 a chyflawni'r gyfradd ailgylchu uchaf yn y DU a'r 4ydd uchaf yn Ewrop.

2. Yn derbyn ymreolaeth awdurdodau lleol, yn ysbryd lleoliaeth, i benderfynu pa mor aml y dylent gasglu gwastraff gweddilliol tra'n cydnabod nad yw casgliadau gwastraff llai aml yn arwain at ragor o dipio anghyfreithlon nac yn peryglu iechyd y cyhoedd.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(30 munud)

**NDM6207** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi rhagor o gymorth i fusnesau bach yr effeithir arnynt gan y broses ailbrisio ardrethi annomestig yn 2017, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am y £10 miliwn o gyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod:

a) bod ardrethi annomestig yn cyfrannu £1biliwn at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;

b) y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mwy na £200 miliwn o gymorth i drethdalwyr yng Nghymru yn 2017-18 i dalu ardrethi annomestig; a

c) bod Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn cynnwys cynllun rhyddhad ardrethi trosiannol newydd sy'n werth £10 miliwn i helpu busnesau yr effeithir arnynt gan y broses ailbrisio a gynhaliwyd yn 2017 gan y corff annibynnol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a chynllun rhyddhad arbennig newydd wedi'i dargedu, sy'n werth £10 miliwn, i roi cymorth ychwanegol i'r stryd fawr.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r rhyddhad ardrethi busnes ychwanegol gwerth £10 miliwn sydd wedi'i sicrhau gan Blaid Cymru fel rhan o'r trafodaethau ynghylch cyllideb 2017/18.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6206** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Cywiro'r cam - honiadau hanesyddol yn ymwneud â disgyblion yn Ysgolion Preswyl y Royal Cambrian a Llandrindod ar gyfer Plant Byddar.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017